# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

**RHAN 6**

TROSOLWG A CHRAFFU

**PENNOD 2**

PWYLLGORAU ARCHWILIO

**83 Trafodion etc**

(1) Mae pwyllgor archwilio i benodi'r person sydd i gadeirio'r pwyllgor (a gaiff fod yn aelod o'r awdurdod neu'n aelod lleyg ond rhaid iddo beidio â bod yn aelod o grŵp gweithrediaeth).

(2) Os nad oes unrhyw grwpiau gwrthblaid, caiff y person sydd i gadeirio'r pwyllgor archwilio fod yn aelod o grŵp gweithrediaeth ond rhaid iddo beidio â bod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol.

(3) Caiff holl aelodau pwyllgor archwilio bleidleisio ar unrhyw gwestiwn y mae'n dod i ran y pwyllgor i'w benderfynu.

(4) Caiff pwyllgor archwilio awdurdod lleol—

(a) ei gwneud yn ofynnol i aelodau a swyddogion yr awdurdod ddod ger ei fron i ateb cwestiynau, a

(b) gwahodd personau eraill i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor.

(5) Mae dyletswydd ar unrhyw aelod o awdurdod lleol neu swyddog i awdurdod lleol i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir o dan is-adran (4)(a).

(6) Nid yw is-adran (5) yn ei gwneud yn orfodol i berson ateb unrhyw gwestiwn y byddai gan y person hawl i wrthod ei ateb mewn achosion llys, neu at ddibenion achosion llys, yng Nghymru a Lloegr.

(7) Mae pwyllgor archwilio i'w drin fel pe bai'n bwyllgor i brif gyngor at ddibenion Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (cael mynd i gyfarfodydd a chael gweld dogfennau awdurdodau, pwyllgorau ac is-bwyllgorau penodol).

(8) At ddibennion is-adrannau (1) a (2), mae i'r ymadroddion "grŵp gweithrediaeth" a "grŵp gwrthblaid" yr un ystyr ag yn adran 75.